Cyllid & Thollau EM

R85 Taflen Gymorth (2008)
Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i thynnu i ffwrdd

Mae'r Daflen Gymorth hon at eich defnydd chi ac i'w chadw

Peidiwch â'i rhoi, na'i hanfon, i'ch banc, cymdeithas adeiladu na'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM.

Mae gan bawb sy'n byw yn y Deyrnas Unedig (DU) yr hawl i ennill neu dderbyn o leiaf £116 yr wythnos cyn y bydd yn rhaid talu treth. Os yw'ch incwm o dan y ffin hon, a bod gennych arian mewn cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu sy'n ennill llog, efallai eich bod yn talu treth pan nad oes raid i chi.

Darllenwch y Daflen Gymorth hon, ac atebwch y cwestiynau, i weld a yw hyn yn wir yn eich achos chi (neu yn achos cyfrif rydych yn gofalu amdano ar ran rhywun arall).

Gall fod rheolau gwahanol yn berthnasol i chi **os nad ydych yn byw yn y DU** yn barhaol. Ffoniwch y Llinell Gymorth i gael mwy o wybodaeth.

Plant o dan 18

Gall plant dderbyn incwm rhydd o dreth hefyd. Os bydd arian a roddwyd gan riant yn ennill llog o dros £100 y flwyddyn, yna bydd y llog yn cael ei drin fel incwm y rhiant a roddodd yr arian. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i arian a roddwyd gan eraill, gan gynnwys mam-gu/tad-cu a nain/taid. Ffoniwch y Llinell Gymorth i gael mwy o wybodaeth.

Gofalu am gyfrif ar ran rhywun arall

Os ydych yn gofalu am gyfrif ar ran rhywun arall, fel plentyn o dan 16 neu rywun na all ofalu am ei arian drosto'i hun, yna defnyddiwch eu manylion nhw (gan gynnwys y cyfeiriad) pan yn llenwi'r ffurflen. Darllenwch y datganiad ar y ffurflen R85 *Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i thynnu i ffwrdd* i gael mwy o wybodaeth.

Llinell Gymorth **0845 302 1489**

Mae Typetalk ar gael drwy ddeialu 18001 yn gyntaf.

Dydd Llun i ddydd Gwener o 8:30 hyd at 17:00.
(Mae peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn. Gadewch neges ac fe wnaiff rhywun eich ffonio'n ôl.)

Gwybodaeth ychwanegol

Ffoniwch y Llinell Gymorth os am help neu fwy o wybodaeth ynglŷn â chael eich llog heb fod treth wedi'i thynnu i ffwrdd.

Mae fersiwn Braille o'r Daflen Gymorth hon ar gael o'r Llinell Gymorth.

Am fersiwn print bras o'r Daflen Gymorth hon neu'r ffurflen R85, ffoniwch y Llinell Gymorth neu ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am R85 mewn print bras.

Yn y lle cyntaf, gweithiwch allan eich ffin incwm rhydd o dreth

Eich oed ar 5 Ebrill 2009	Ffin flynyddol	Ffin wythnosol
o dan 65	£6,035	£116
65 i 74	£9,030	£173
dros 75	£9,180	£176

Nodwch y ffin flynyddol sy'n berthnasol i chi, o'r tabl uchod, ym mlwch 1 — Blwch 1 £ . 0 0

Lwfans Pâr Priod

Os ganed chi neu'ch priod/partner sifil cyn 6 Ebrill 1935 a

- eich bod yn ŵr priod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, neu
- chi yw'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm uchaf a'ch bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005,

yna nodwch £4,472 ym mlwch 2.

Ffoniwch y Llinell Gymorth os nad ydych yn sicr a allwch wneud cais am y lwfans pâr priod

Blwch 2 £ . 0 0

Lwfans Person Dall

A ydych wedi'ch cofrestru'n ddall gyda'ch awdurdod lleol neu'n llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun sy'n gofrestredig? Os ydych, rhowch £1,800 ym mlwch 3.

Mae'n bosib nad yw'ch awdurdod lleol yn cadw cofrestr os ydych yn byw yn Yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. Os felly, ffoniwch y Llinell Gymorth

Blwch 3 £ . 0 0

Cyfanswm ffin incwm rhydd o dreth

Adiwch ynghyd y symiau ym mlychau 1, 2 a 3 a rhowch y cyfanswm ym mlwch 4.

Blwch 4 £ . 0 0

Trowch drosodd i weithio allan eich incwm blynyddol

Eich incwm blynyddol

Ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0845 302 1489** os nad ydych yn sicr beth sy'n cyfrif fel incwm.
Ffoniwch y Llinel Gymorth neu ewch ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/individuals/nsi.htm** os nad ydych yn sicr a ddylid cynnwys incwm o'ch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol.

Swm blynyddol

Pensiwn y Wladwriaeth – eich hawl wythnosol x 52
Peidiwch â chynnwys unrhyw Gredyd Pensiwn neu Gyfandaliad Pensiwn y Wladwriaeth. £ .

Pensiynau eraill Er enghraifft, gan gyn gyflogwr £ .

Cyflog o Gyflogaeth, neu elw o weithio drosoch eich hun £ .

Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-dal Analluogrwydd trethadwy
Peidiwch â chynnwys unrhyw Gredyd Treth Gwaith neu Gredyd Treth Plant neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol fel Budd-dal Plant neu Lwfans Gweini. £ .

Llog o fanciau a chymdeithasau adeiladu – nodwch y llog cyn bod treth wedi'i thynnu i ffwrdd. Dyma'r swm llog gros. Peidiwch â chynnwys llog ISA. Os oes gennych gyfrif ar y cyd, yna nodwch dim ond eich rhan chi. £ .

Difidendau cwmni ac unrhyw incwm arall rydych yn meddwl all fod yn drethadwy. Er enghraifft, rhenti a dderbyniwch. Peidiwch â chynnwys Benthyciad Myfyrwyr. £ .

Cyfanswm incwm blynyddol

Rhowch gyfanswm eich incwm ym mlwch 5. Blwch 5 £ .

Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i thynnu i ffwrdd

A yw'r ffigur ym mlwch 5 yn llai na'r ffigur ym mlwch 4 drosodd?

Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Os 'Ydyw', llenwch ffurflen R85 a'i rhoi i'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Byddwch, wedyn, yn derbyn eich llog heb fod treth wedi'i thynnu ohono.

Os 'Nac ydyw', **peidiwch â** llenwi ffurflen R85 gan nad ydych yn gymwys i dderbyn llog yn y dull hwn.

Ffurflen R85 *Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i thynnu i ffwrdd*

Os cyfrifwch fod eich incwm blynyddol yn is na'ch ffin incwm rhydd o dreth flynyddol, yna dylech lenwi ffurflen R85, *Derbyn eich llog heb fod treth wedi'i thynnu i ffwrdd*, a ddaeth gyda'r Daflen Gymorth hon. Gofynnwch i'ch banc neu gymdeithas adeiladu os oes angen un arall arnoch. Fel arall, gallwch ffonio'r Llinell Gymorth ar **0845 302 1489** neu ewch ar-lein i **www.hmrc.gov.uk/forms/r85.pdf**

Trwy lenwi'r ffurflen R85 rydych yn dweud wrth eich banc neu gymdeithas adeiladu nad oes raid i chi dalu treth.

Os bydd eich incwm yn codi ac, o ganlyniad, y dylech ddechrau talu treth, yna mae'n rhaid i chi ddweud wrth bob banc a chymdeithas adeiladu y mae gennych gyfrif gyda hwy. Nid eu cyfrifoldeb hwy yw gwirio bod yr wybodaeth a roesoch ar y ffurflen R85 yn gywir neu'n gyfoes. Dylech nodi y byddwn, o bosib, yn gwirio'r wybodaeth a roesoch.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen R85 arall os byddwch yn agor cyfrif newydd.

Os yw'ch banc neu gymdeithas adeiladu eisoes wedi tynnu treth oddi ar eich llog yn y flwyddyn dreth hon 2008-09, sy'n rhedeg o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009, efallai y gallant ei had-dalu i chi.

Os cewch anhawster i lofnodi neu wneud marc, yna ffoniwch y Llinell Gymorth.

Wedi talu gormod o dreth mewn blynyddoedd cynharach?
Os ydych wedi talu treth ar eich llog yn y gorffennol, ond yn awr yn meddwl na ddylech fod wedi gwneud hynny, yna ffoniwch ni ar **0845 302 1489**.

Mae gennych hyd at bum mlynedd o 31 Ionawr ar ôl diwedd pob blwyddyn dreth i wneud cais i gael treth yn ôl. Er enghraifft, os gwnaethoch dalu mwy o dreth nag a ddylech ar gyfer y flwyddyn dreth 2002-03, yna mae gennych hyd at 31 Ionawr 2009 i wneud cais.